

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	19 Hydref 2026
Swyddog Arweiniol	Gareth Owens, Clerc
Swyddog Cyswllt	Gareth Owens, Clerc (01745 535286)
Pwnc	Adnewyddu'r Cyfansoddiad



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cymeradwyo mân newidiadau a chywiriadau i'r cyfansoddiad.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi cyfansoddiad sy'n cynnwys y rheolau allweddol sy'n llywodraethu ei weithrediad. Cafodd cynnwys y cyfansoddiad ei ddiweddarau ddiwethaf yn 2021, ac ers hynny mae mân ddiwygiadau wedi'u gwneud.
- 3 Rydym wedi adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau bod yr holl welliannau hynny wedi'u cynnwys. Rydym hefyd wedi ymgymryd ag ail-gyfieithiad cynhwysfawr o'r ddogfen er mwyn sicrhau bod ystyr y ddogfen yn cael ei gadw ac nad yw newidiadau tameidiog i'r ddogfen Saesneg wedi arwain at ddarnau yn y ddogfen Gymraeg nad ydynt yn gwneud synnwyr.

ARGYMHELLION

- 4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Cymeradwyo'r newidiadau i'r cyfansoddiad fel y dangosir yn Atodiad 1**

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

CEFNDIR

- 6 Er mwyn cynnal arferion da, mae'r ATA yn cyhoeddi cyfansoddiad ag ynddo'r dogfennau allweddol sy'n sylfaen i'w lywodraethiant. Mae'r ddogfen yn nodi'r strwythur democrataidd, cylch gorchwyl y pwyllgorau, rheolau'r weithdrefn contractio ac ati.

- 7 Adolygwyd y ddogfen yn drylwyr yn 2021, a bryd hynny manteisiodd yr ATA ar y cyfle i ailystyried ei brosesau. Ers hynny, mae'r ATA wedi cymeradwyo nifer o fân ddiwygiadau e.e. newidiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, neu'n fwyaf diweddar y newid o ran dynodiad y swyddog a.151

GWYBODAETH

- 8 Mae swyddogion wedi ailwampio'r testun er mwyn:
- sicrhau bod y ddogfen yn adlewyrchu'r holl newidiadau sydd wedi'u cymeradwyo
 - cael gwared ar unrhyw enghreifftiau o iaith sy'n ymwneud â rhywedd
 - cywiro rhai gwallau fformatio
 - mireinio geiriad heb newid yr ystyr
- 9 Yn bennaf, gwnaed y newidiadau cymeradwy i'r testun Saesneg, gan mai hon yw iaith gyntaf y clerc. Mae'n bosibl na fydd y mân welliannau i'r testun Saesneg yn gallu cael eu cyfieithu'n uniongyrchol i'r Gymraeg. Weithiau, bydd angen newid mwy cynhwysfawr er mwyn parchu gwahaniaethau gramadegol a strwythurol y Gymraeg, gan sicrhau bod yr iaith yn parhau i fod yn eglur. Felly, rydym wedi ymgymryd ag ail-gyfieithiad cynhwysfawr o'r Saesneg er mwyn sicrhau nad yw'r golygiadau i'r Saesneg wedi cael effaith anfwriadol ar ystyr neu ar lunio'r ddogfen yn Gymraeg. Un fantais ychwanegol o wneud hyn yw ei fod yn sicrhau bod y dogfennau Cymraeg a Saesneg yn mynegi'r un peth yn y ddwy iaith.
- 10 Mae'r ddogfen ddiwygiedig wedi'i hatodi, gyda'r newidiadau wedi'u tracio yn Atodiad 1 ac fel copi glân yn Atodiad 2.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cyllideb ar gyfer 2025/26	Mae'r costau cyfieithu o fewn y gyllideb.
Cyfreithiol	Yn wahanol i gynghorau cyfansoddiadol, nid oes rhaid i'r ATA gyhoeddi cyfansoddiad. Fodd bynnag, mae'n cyhoeddi dogfen er mwyn cynnal arfer da.
Staffio	Ystyrir nad yw'n berthnasol
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Mae'r adroddiad yn nodi ein bod wedi cymryd camau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei pharchu.
Risgiau	Ystyrir nad yw'n berthnasol